CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	**Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn**
Dyddiad:	**02.03.2023 / 09.03.2023**
Pwnc:	**Rhannu Swydd ar y Pwyllgor Gwaith**
Aelod(au) Portffolio:	**Yr Arweinydd** **Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer**
Pennaeth Gwasanaeth:	**Lynn Ball** **Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	**Mared Yaxley** **Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol)** **MaredYaxley@ynysmon.llyw.cymru**
Aelodau Lleol:	**Nid yw'n fater lleol**

A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau

Argymhellion:

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell a bod y Cyngor yn cytuno i newid y Cyfansoddiad er mwyn:
    a. Caniatáu i un neu ragor o aelodau rannu swydd fel arweinydd, dirprwy arweinydd ac fel aelodau portffolio o'r Pwyllgor Gwaith;
    b. Caniatáu i'r uchafswm o aelodau a ganiateir ar y Pwyllgor Gwaith gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r uchafswm statudol pan fydd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd; a
    c. Nodi'r trefniadau mewn perthynas â chworwm a phleidleisio pan fydd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd;
    (a) yn unol â'r geiriad yn **Atodiad 1** yn yr adroddiad,
    ac
    (b) unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.

2. Os bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau rhannu swydd a / neu nifer yr unigolion sy'n derbyn cyflog uwch o ganlyniad i'r trefniadau rhannu swydd, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn mynd ati i roi cyhoeddusrwydd i hynny ar unwaith.

Rhesymau:

1. Cefndir Deddfwriaethol

1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud hi'n ofynnol

i awdurdodau lleol gynnwys yn eu trefniadau Gweithrediaeth ddarpariaeth sy'n galluogi dau gynghorydd neu ragor i rannu swydd ar y Pwyllgor Gwaith. Mae Adran 58 o'r Ddeddf hefyd yn nodi y dylai'r ddarpariaeth hon gynnwys rhannu swydd yr arweinydd neu'r dirprwy arweinydd; a phan fydd trefniadau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith, bydd uchafswm yr aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn cynyddu o'r uchafswm presennol o 10, ac y bydd diwygiadau i'r ddarpariaeth cworwm a phleidleisio.

1.2 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn cynnwys sefydlu trefniadau Gweithrediaeth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Atodlen 7 yn Neddf 2021 yn newid y ddarpariaeth wreiddiol yn Neddf 2000 drwy:

- Ganiatáu i fwy nag un cynghorydd rannu swydd arweinydd ar y Pwyllgor Gwaith
- Ei gwneud hi'n ofynnol i drefniadau Gweithrediaeth gynnwys darpariaeth sy'n galluogi i'r awdurdod neu arweinydd y Pwyllgor Gwaith bennu faint o gynghorwyr fydd yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwaith
- Ei gwneud hi'n ofynnol i drefniadau y Pwyllgor Gwaith gynnwys darpariaeth sy'n galluogi i ddau gynghorydd neu ragor rannu penodiad i'r Pwyllgor Gwaith
- Pan fydd aelodau'n rhannu swydd, caniateir un bleidlais rhyngddynt mewn perthynas ag unrhyw fater
- Os yw aelodau'n rhannu swydd a'u bod yn mynychu cyfarfod yn rhinwedd eu swydd fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith, byddant yn cyfrif fel un person wrth benderfynu a oes cworwm
- Er na chaniateir i Bwyllgor Gwaith ar fodel arweinydd a chabinet yng Nghymru gynnwys mwy na 10 aelod, os caiff dau gynghorydd neu ragor eu hethol i rannu swydd, fe all y nifer hwn fod yn fwy na 10 ond dim mwy na 13:
    - Ar gyfer 11 neu 12 aelod, rhaid i o leiaf dau o'r aelodau fod wedi cael ei hethol/penodi i rannu swydd;
    - Ar gyfer 13 aelod, rhaid i o leiaf dri aelod fod wedi cael eu hethol/penodi i rannu swydd.

  Fe all Gweinidogion Cymru gymeradwyo Rheoliadau i ddiwygio'r niferoedd hyn, ond ni ddylai nifer aelodau'r Pwyllgor Gwaith fod yn fwy na 10 neu 13 (yn y drefn honno).

2. Y sefyllfa Gyfansoddiadol bresennol

2.1 Er bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi i'r Arweinydd rannu swydd (paragraff 2.7.3.4) ac i ddau Gynghorydd neu ragor rannu swydd fel aelodau o'r Pwyllgor Gwaith (paragraff 2.7.5.5) a cheir darpariaeth bellach ym mharagraff 2.7.9; nid oes darpariaeth benodol ar gyfer rhannu'r swydd Dirprwy Arweinydd.

2.2 Nid yw'r Cyfansoddiad yn nodi sut y bydd materion yn ymwneud â chworwm neu bleidleisio yn cael eu heffeithio pan fydd swydd yn cael ei rhannu.

2.3 Nid yw'r Cyfansoddiad yn nodi sut y bydd trefniadau rhannu swydd yn effeithio ar

gyfanswm aelodau'r Pwyllgor Gwaith.

3. Y cynnig

3.1 Cynigir bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau statudol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf 2021(a fanylir uchod) a darparu ar eu cyfer, yn unol â'r newidiadau sydd wedi'u tracio yn **Atodiad 1**, ynghyd ag unrhyw newidiadau cyfansoddiadol eraill sy'n codi.

3.2 Mae'r newidiadau yn cynnwys nodi y gall:

3.2.1 Mwy nag un person rannu'r swydd Arweinydd, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar y Pwyllgor Gwaith:

3.2.1.1 Y Cyngor fydd yn penodi i'r swydd Arweinydd. Y Cynghorwyr fydd yn rhannu'r swydd fydd yn penderfynu sut i rannu dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd.

3.2.1.2 Yr Arweinydd fydd yn penodi aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cynnwys penodi Dirprwy Arweinydd a dyrannu Portffolios. Yr Arweinydd fydd yn cyfarwyddo'r trefniadau ar gyfer rhannu dyletswyddau a chyfrifoldebau swydd sy'n cael eu rhannu gan ddau Gynghorydd neu ragor, ac, os nad ydi'r Arweinydd ar gael, bydd y Cynghorwyr sydd yn rhannu'r swydd yn trafod hynny ymysg ei gilydd.

3.2.2 Pan fydd mwy nag un Aelod o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd (swydd Arweinydd neu Ddirprwy neu Aelod Portffolio), os ydynt yn mynychu yn rhinwedd eu rôl fel Aelod o'r Pwyllgor Gwaith,

3.2.2.1 bydd ganddynt un bleidlais rhyngddynt (dyrennir un bleidlais i'r trefniant rhannu swydd ac nid i'r unigolion eu hunain) a

3.2.2.2 byddant yn cyfrif fel un person at ddibenion penderfynu a oes cworwm yn y cyfarfod.

3.2.3 Pan fydd trefniant rhannu swydd ar waith, bydd cyfanswm aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn uwch na'r uchafswm statudol arferol, yn unol â'r ddarpariaeth statudol.

3.2.4 Pleidleisio: Yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith, bydd gan bob swydd Weithredol hawl i bleidlais.

- Gellir penodi Arweinydd(wyr) fel Arweinydd(wyr) neu Arweinydd(wyr) ac Aelod(au) Portffolio; bydd un bleidlais ar gyfer y rôl honno – nid ar gyfer pob unigolyn sy'n cyflawni'r rôl. Mae'r bleidlais yn cael ei dyrannu i'r trefniant rhannu swydd ac nid i'r unigolion eu hunain.

- Caiff Dirprwy Arweinydd(wyr) eu penodi gan yr Arweinydd o blith y Cynghorwyr sydd eisoes wedi cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwaith fel Aelodau Portffolio. Nid oes pleidlais ar wahân ar gyfer y rôl Dirprwy Arweinydd ac felly ni fyddai trefniant rhannu swydd ar gyfer y rôl Dirprwy yn effeithio ar y trefniadau pleidleisio yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith. Mae'r bleidlais yn gysylltiedig â'r Portffolio.
- Mae gan bob Portffolio bleidlais. Caiff y bleidlais ei dyrannu i'r trefniant rhannu swydd ac nid i'r unigolion eu hunain, ac felly caniateir un bleidlais mewn perthynas â phob Portffolio a bydd rhaid i'r Cynghorwyr sy'n rhannu'r swydd benderfynu ymlaen llaw pwy fydd yn pleidleisio ar ran y Portffolio.

4. **Yr effaith ar gydnabyddiaeth ariannol a rolau cyflogau uwch o fewn y Cyngor**

4.1 Mae Rhan 6 o'r Cyfansoddiad yn nodi manylion y tâl sydd ar gael i aelodau'r awdurdod lleol, yn unol â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae gan bob Cynghorydd yr hawl i gyflog sylfaenol. Caiff cyflog uwch (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol) ei dalu i aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, cadeiryddion pwyllgorau ac arweinydd yr wrthblaid.

4.2 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn darparu adroddiadau blynyddol sy'n nodi'r cyflogau sylfaenol ac uwch a delir i Gynghorwyr. Maent hefyd yn nodi'r nifer uchaf o uwch gyflogau sydd ar gael ym mhob Cyngor.

4.3 Ar hyn o bryd, gall uchafswm o 17 o uwch gyflogau (yn cynnwys cyflogau dinesig) gael eu talu yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Ar hyn o bryd telir 15 o uwch gyflogau ac mae manylion am y symiau hyn/yr unigolion sy'n eu derbyn ar gael yn Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor.

4.4 O ran trefniadau rhannu swydd, mae'r Rhestr yn Rhan 6 y Cyfansoddiad yn nodi'r canlynol (paragraff 10):

"10.0 Trefniadau Rhannu Swydd

10.1 I aelodau o'r Pwyllgor Gwaith: Bydd pob "rhannwr" yn cael cyfran briodol o gyflog y Grŵp Poblogaeth.

10.2 Ni ellir mynd y tu hwnt i'r uchafswm statudol ar gyfer cabinetau felly bydd y ddau rannwr swydd yn cyfrif tuag at yr uchafswm.

10.3 O dan y Mesur, nifer y bobl sy'n cael uwch gyflog, nid nifer y swyddi ag uwch gyflogau, sy'n cyfrif tuag at y cap. Felly, ar gyfer yr holl drefniadau rhannu swydd bydd y cap uwch gyflog yn cael ei gynyddu yn amodol ar yr uchafswm statudol o 50% o aelodaeth y Cyngor.

10.4 Rhaid hysbysu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch

manylion unrhyw drefniadau rhannu swydd."

4.5 Os ydi aelodau presennol y Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd, E.e. os oes mwy nag un dirprwy arweinydd yn cael ei benodi o blith yr Aelodau Portffolio, ni fydd hyn yn effeithio ar nifer yr uwch gyflogau a delir ac ni fydd yn effeithio ar gyfanswm yr uwch gyflogau a delir. Mewn perthynas â goblygiadau ariannol trefniant o'r fath, mae'r Rhestr yn nodi (paragraff 2.7): "*Os yw'r Cyngor yn dewis bod â mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch gyflog aelodau gweithrediaeth eraill er mwyn cyfrifo'r uwch gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd."* Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i drefniant o'r fath; bydd yr unigolion a benodir i'r swydd yn derbyn cyfran o'r uwch gyflog.

4.6 Os caiff Cynghorydd (sy'n derbyn cyflog sylfaenol ar hyn o bryd) ei benodi i rannu swydd fel Aelod Portffolio o'r Pwyllgor Gwaith, bydd yr unigolyn hwnnw a'r Aelod Portffolio arall yn derbyn cyfran briodol o'r uwch gyflog a ddyrennir i aelodau'r Pwyllgor Gwaith. Bydd dau unigolyn yn cyflawni un swydd ag uwch gyflog, a byddant yn rhannu'r uwch gyflog hwnnw. Ni fydd y trefniant hwn yn effeithio ar gyfanswm yr uwch gyflogau a delir ond bydd yn golygu bod person ychwanegol yn derbyn uwch gyflog (nifer y bobl sy'n derbyn uwch gyflog, ac nid nifer y swyddi ag uwch gyflog sy'n cyfrif tuag at y cap); yn seiliedig ar y niferoedd presennol, byddai hyn yn cynyddu nifer yr uwch gyflogau yn y Cyngor i 16 o uwch gyflogau (sy'n dal i fod yn is na'r cap presennol, sef 17). Unwaith eto, ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i drefniant o'r fath; bydd yr un faint o arian yn cael ei dalu a byddai'r unigolion sy'n rhannu'r rôl yn derbyn cyfran ohono.

4.7 Mae'r Rhestr yn nodi (paragraff 2.8) *"Ni chaiff Cyflog Uwch ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, oni bai y cafwyd caniatâd gan Weinidogion Cymru."*

4.8 Mae Atodiad 3 yn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn nodi bod "*Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rhestr yn ystod y flwyddyn gael eu cyhoeddi'n brydlon yn y dull uchod a rhaid rhoi gwybod yn brydlon i Ysgrifenyddiaeth y Panel am bob newid*". Os oes unrhyw newidiadau i drefniadau'r Pwyllgor Gwaith, yn cynnwys rhannu swyddi ymysg aelodau'r Pwyllgor Gwaith, rhaid rhoi gwybod i banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Daeth newidiadau statudol i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid diwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau statudol hyn.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?
Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig.(Paragraff 2.15.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor).

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?
Mae'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yn cyd-fynd â'r darpariaethau statudol diwygiedig.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?
Dim goblygiadau cyllidebol ar hyn o bryd. Pe byddai aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd, byddai'n rhaid ystyried unrhyw drefniadau yn unol â Rhan 6 o'r Cyfansoddiad (Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau) a darpariaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Ni fyddai trefniant rhannu swydd rhwng aelodau yn arwain at unrhyw gostau gan y byddai'r unigolion sy'n rhannu'r swydd yn derbyn cyfran o'r cyflog "ychwanegol".

Dd – Asesu'r Effaith bosib (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Fe all caniatáu i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith rannu swydd arwain at Bwyllgor Gwaith mwy amrywiol gan y byddai modd i Gynghorwyr rannu'r cyfrifoldeb, ac fe allai hyn ganiatáu i unigolion sydd heb ystyried rôl weithredol o'r blaen (efallai oherwydd cyfrifoldebau megis teulu neu waith) wneud cyfraniad.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-	Mae'r cynnig yn niwtral o ran costau.
3	A ydym wedi bod yn cyd-weithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Na ond mae'r newidiadau diweddar i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bellach yn cynnig yr hyblygrwydd hwn.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-	Na. Ni ddylai effeithio'n uniongyrchol ar ddinasyddion.
5	Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir i dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Fe ddylai gael effaith gadarnhaol – fel y manylir ym mlwch 1 uchod.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais	Amherthnasol.

	economaidd-gymdeithasol.	
7	Sylwch ar unrhyw effaith bosib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol i'r graddau y gallai roi mwy o gyfle i ymarfer i aelodau a fyddai'n dymuno magu hyder wrth siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		**Beth oedd eu sylwadau?**
1	**Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA)** (mandadol)	Do, wedi ymgynghori; mae eu cyfraniad wedi ei gynnwys yn yr adroddiad terfynol / Atodiad 1
2	**Cyllid / Adran 151** (mandadol)	Do, wedi ymgynghori, mae ei gyfraniad wedi ei gynnwys yn yr adroddiad tefynol / Atodiad 1
3	**Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol)	Awdur yr Adroddiad
4	**Adnoddau Dynol (AD)**	
5	**Eiddo**	
6	**Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)**	
7	**Caffael**	
8	**Sgriwtini**	
9	**Aelodau Lleol**	
10	**Unrhyw gyrff allanol eraill**	

F - Atodiadau:
Atodiad 1 – Newidiadau arfaethedig i'r geiriad yn Erthygl 7 a Rheolau Gweithdrefnol y Pwyllgor Gwaith yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):
Dim

2.7 Erthygl 7 – Yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith

2.7.1 Swyddogaeth

Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyflawni holl swyddogaethau'r awdurdod lleol nad ydynt yn gyfrifoldeb yr un rhan arall o'r awdurdod lleol, p'un ai dan y ddeddf neu dan y Cyfansoddiad hwn.

2.7.2 Ffurf a chyfansoddiad

Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys yr Arweinydd ynghyd ag o leiaf 2, ond dim mwy na 9 Cynghorydd arall, (oni bai bod aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd, a bod y darpariaethau ym mharagraff 2.7.9 isod yn berthnasol), gan gynnwys y rôl Dirprwy Arweinydd; a bydd y cyfan yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwaith gan yr Arweinydd.

2.7.3 Arweinydd

Bydd yr Arweinydd yn Gynghorydd (neu fwy nag un – gweler paragraff 2.7.3.4 isod) a etholwyd i swydd Arweinydd gan y Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol cyntaf ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol cyffredinol.

2.7.3.1 Tymor swydd yr Arweinydd

2.7.3.1.1 Bydd tymor yr Arweinydd yn ei swydd yn parhau am dymor y Cyngor, yn amodol ar baragraff 2.7.3.3 isod.

2.7.3.2 Ethol yr Arweinydd

2.7.3.2.1 Rhaid i bob ymgeisydd sy'n dymuno cael ei ystyried/ei hystyried ar gyfer ei benodi/ei phenodi yn Arweinydd, wneud cyflwyniad ysgrifenedig (maniffesto) a chyflwyniad llafar o'i weledigaeth/gweledigaeth a gwerthoedd i'r Cyngor Sir. Rhaid i bob ymgeisydd ar gyfer swydd Arweinydd gael ei enwebu/ei henwebu a'i eilio/heilio gan ddau o gyd-Gynghorwyr etholedig. Rhaid cyflwyno pob enwebiad a maniffesto yn ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr cyn 5pm ar y 7fed niwrnod (5ed diwrnod gwaith) ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol arferol (a fydd o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y cyfarfod cyntaf).

2.7.3.2.2 Yn y Cyfarfod Blynyddol cyntaf ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol arferol, gofynnir i'r sawl a enwebwyd, yn nhrefn y wyddor, i gyflwyno eu cynigion a'u rhaglenni i'r Cyngor. Dylent fod yn barod i ateb cwestiynau gan yr aelodau sydd newydd eu hethol.

2.7.3.2.3 Os oes dau neu ragor o enwebiadau ar gyfer swydd yr Arweinydd, bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar ôl y cyflwyniadau a thrwy bleidlais gudd a bydd paragraff gweithdrefn 4.1.18.5 "pleidlais wedi ei chofnodi" yn cael ei hatal i'r pwrpas hwn. Os oes dau ymgeisydd, rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus sicrhau rhagor na 50% o'r pleidleisiau a gafodd eu bwrw. Mewn etholiadau lle mae tri neu ragor o ymgeiswyr yna, os oes rhaid, bydd yr ymgeisydd a dderbyniodd y nifer isaf o bleidleisiau yn disgyn allan a chynhelir pleidlais newydd gyda'r broses yn cael ei hailadrodd hyd oni fydd un ymgeisydd wedi derbyn rhagor na 50% o'r pleidleisiau a gafodd eu bwrw. Petai dau neu ragor o ymgeiswyr yn derbyn yr un nifer isaf o bleidleisiau, ni fydd unrhyw ymgeisydd yn disgyn allan a chynhelir pleidlais newydd. Swyddogion sy'n gyfrifol am gasglu a chyfrif y

pleidleisiau ac am ddatgan canlyniad y bleidlais gyfrinachol (pleidleisiau cyfrinachol). Ar ôl y datganiad(au), bydd y Prif Weithredwr neu swyddog a benodwyd ar ei ran/ei rhan yn cadw'r papurau pleidleisio ac yn eu dinistrio ar ôl y cyfarfod.

2.7.3.2.4 Os mai un enwebiad yn unig fydd ar gyfer swydd yr Arweinydd, yna bydd yr un ymgeisydd hwnnw/honno yn gwneud ei gyflwyniad/chyflwyniad o'i weledigaeth/ gweledigaeth a gwerthoedd i'r Cyngor a gwneir penderfyniad trwy godi dwylo.

2.7.3.2.5 Os bydd Arweinydd yn marw, yn ymddiswyddo, yn cael ei atal/hatal, dim mwyach yn Gynghorydd neu'n cael ei d(th)ynnu o'i swydd, bydd ethol Arweinydd newydd yn dilyn yr un drefn a'r drefn a manylir arni yn 2.7.3.2.1 hyd at ac yn cynnwys 2.7.3.2.4 ac yn cael ei chynnal yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, y cyfarfod blynyddol, arferol neu arbennig, p'un bynnag yw'r cynharaf.

2.7.3.3 Dwyn cyfnod yr Arweinydd yn y swydd i ben

Daw cyfnod gwasanaeth yr Arweinydd i ben os ydyw:-

2.7.3.3.1 yn ymddiswyddo o'r swydd; neu

2.7.3.3.2 yn cael ei atal rhag bod yn Gynghorydd dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000; neu

2.7.3.3.3 yn peidio â bod yn Gynghorydd; neu

2.7.3.3.4 os ydyw'n cael ei wthio o'i swydd drwy benderfyniad y Cyngor ar fater o hyder ynddo - gyda'r amod y bydd raid i'r Cyngor gael mwyafrif o ddeuparth y rheini sy'n bresennol ac yn pledleisio i benderfynu ar fater o hyder; neu

2.7.3.3.5 Os bydd yr Arweinydd yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor am ba reswm bynnag neu'n cael ei atal rhag bod yn aelod, yna bydd y Dirprwy Arweinydd yn cymryd swydd yr Arweinydd hyd oni fydd Arweinydd newydd wedi ei ethol/hethol. Os ceir pleidlais lwyddiannus o ddiffyg hyder yn yr Arweinydd neu pan fydd Arweinydd yn ymddiswyddo, caiff pwerau'r Arweinydd eu breinio yn y Dirprwy Arweinydd a'u ddirprwyo iddo/iddi hyd oni fydd Arweinydd newydd wedi ei ethol/ei hethol.

2.7.3.4 Gall yr Arweinydd rannu swydd

2.7.3.4.1 Gall y Cyngor ethol dau neu fwy o Gynghorwyr i rannu swydd fel Arweinydd Gweithrediaeth, os ydynt wedi cytuno i sefyll i fod yn Arweinydd ar sail trefniant rhannu swydd, a dehonglir cyfeiriadau mewn unrhyw ddeddfiad, ac yn y Cyfansoddiad hwn, at Arweinydd fel pe baent yn cynnwys Arweinydd a etholir yn rhinwedd y ddarpariaeth hon.

2.7.3.4.2 Os oes dau Gynghorydd neu ragor yn rhannu'r swydd Arweinydd, byddant yn penderfynu ymysg ei gilydd sut y byddant yn mynd ati i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Arweinydd.

2.7.4 Y Dirprwy Arweinydd

2.7.4.1 Bydd y Dirprwy Arweinydd yn Gynghorydd (neu fwy nag un – gweler paragraff 2.7.4.3) a benodwyd i swydd y Dirprwy Arweinydd gan yr Arweinydd fel y manylir ar hynny ym mharagraff 4.1.1.2.6. Bydd ef/hi yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

2.7.4.2 Daw cyfnod gwasanaeth y Dirprwy Arweinydd i ben os ydyw:

2.7.4.2.1~~1~~ yn ymddiswyddo; neu

2.7.4.2.2 yn cael ei atal rhag bod yn Gynghorydd dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000; neu

2.7.4.2.3 yn peidio â bod yn Gynghorydd; neu

2.7.4.2.4 os bydd ef/hi yn cael ei ddiswyddo/diswyddo gan yr Arweinydd sydd yn gorfod rhoi rhybudd ysgrifenedig o hynny i'r Prif Weithredwr.

2.7.4.3 Gall y Dirprwy Arweinydd rannu swydd

2.7.4.3.1 Gall yr Arweinyd benodi dau Aelod o'r Pwyllgor Gwaith neu ragor i rannu'r swydd Dirprwy Arweinydd a dehonglir cyfeiriadau mewn unrhyw ddeddfiad, ac yn y Cyfansoddiad hwn, at Ddirprwy Arweinydd fel pe baent yn cynnwys Dirprwy Arweinyddion a etholir yn rhinwedd y ddarpariaeth hon.

2.7.4.3.2 Pan fo dau Gynghorydd neu ragor yn rhannu'r swydd Dirprwy Arweinydd, bydd yr Arweinydd yn dethol, ar sail ad hoc, sut y bydd y Cynghorwyr yn cyflawni'r rôl honno. Os nad ydi'r Arweinydd ar gael, bydd y Dirprwy Arweinyddion yn penderfynu ymysg ei gilydd sut y byddant yn mynd ati i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Dirprwy Arweinydd.

2.7.5 Aelodau Eraill y Pwyllgor Gwaith

2.7.5.1 Bydd aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith yn cael eu penodi i'w swyddi gan yr Arweinydd ac yn parhau yn eu swyddi:

2.7.5.1.1 hyd nes y byddant yn ymddiswyddo o'r swydd; neu

2.7.5.1. 2 hyd nes y cânt eu hatal rhag bod yn Gynghorwyr dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (ond byddant yn gallu ailgydio yn y swydd ar ddiwedd cyfnod yr atal); neu

2.7.5.1.3 hyd nes y byddant yn peidio â bod yn Gynghorwyr; neu

2.7.5.1.4 hyd nes y byddant yn cael eu hymddiswyddo gan yr Arweinydd a bydd raid iddo ef gyflwyno rhybudd ysgrifenedig o unrhyw gamau o'r fath i'r Prif Weithredwr.

2.7.5.2 Gall Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith rannu swydd

2.7.5.2.1 ~~5~~ Gall yr Arweinydd benodi dau neu fwy o Gynghorwyr i rannu swydd fel Aelod o'r Pwyllgor Gwaith a dehonglir cyfeiriadau mewn unrhyw ddeddfiad, ac yn y Cyfansoddiad hwn, at Aelod o'r Pwyllgor Gwaith (*neu Aelod Gweithrediaeth*) fel pe baent yn cynnwys Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a etholir yn rhinwedd y ddarpariaeth hon.

2.7.5.2.2 Pan fo dau Gynghorydd neu ragor yn rhannu Portffolio ar y Pwyllgor Gwaith, bydd yr Arweinydd yn dethol, ar sail ad hoc, sut y bydd y Cynghorwyr yn cyflawni'r rôl honno. Os nad ydi'r Arweinydd ar gael, bydd yr Aelodau Pwyllgor Gwaith sy'n rhannu'r swydd yn penderfynu ymysg ei gilydd sut y byddant yn mynd ati i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Aelod Portffolio.

2.7.6 Trafodion y Pwyllgor Gwaith

Cynhelir trafodion y Pwyllgor Gwaith yn unol â Rheolau Gweithdrefn Pwerau Gweithredol a nodir yn Rhan 4.4 y Cyfansoddiad hwn.

2.7.7 Cyfrifoldeb am swyddogaethau

Bydd yr Arweinydd yn gyfrifol am gadw rhestr yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn yn nodi pa Aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith, Pwyllgorau'r Pwyllgor Gwaith, Swyddogion neu drefniadau ar y cyd sy'n gyfrifol am ymarfer swyddogaethau gweithredol arbennig.

2.7.8 Penodi Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith

2.7.8.1 Mae'r Cyngor yn caniatáu penodi dim mwy na thri Cynghorydd ar y tro i fod yn Gynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith, i gynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Gwaith.

2.7.8.2 Bydd y Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith yn cael eu penodi gan Arweinydd y Weithrediaeth.

2.7.8.3 Gall Arweinydd y Weithrediaeth nodi

a) nifer y Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith fydd yn cael eu penodi, oddi mewn i'r cap cyffredinol o 3 a bennwyd gan y Cyngor (mae hyn yn cynnwys y posibilrwydd o beidio â phenodi unrhyw Gynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith o gwbl)
b) unrhyw broses benodi ar gyfer dethol Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith;

c) yr unigolion a fydd yn cael eu penodi fel Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith;

d) y cyfnod y bydd unrhyw Gynorthwyydd i'r Pwyllgor Gwaith yn ei dreulio yn y swydd, a

c) chyfrifoldebau a dyletswyddau unrhyw Gynorthwyydd i'r Pwyllgor Gwaith.

2.7.8.4 Ni all unrhyw Gynorthwywyr i Bwyllgor Gwaith Cyngor gynnwys Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Cyngor nac unrhyw Aelod o Bwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor.

2.7.8.5 Nid yw Cynorthwyydd i Bwyllgor Gwaith y Cyngor yn Aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

2.7.8.6 Ni fydd Cynorthwyydd i'r Pwyllgor Gwaith yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol. Bydd rhaid i unrhyw gais am gydnabyddiaeth ariannol gan Gynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn cyn eu cyflwyno i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (neu gyfatebol).

2.7.9 Rhannu'r swydd ~~Gall yr~~ Arweinydd neu aelod o'r~~ac Aelodau'r~~ Pwyllgor Gwaith ~~rannu swydd~~

2.7.9.1 Fe all mwy nag un unigolyn rannu'r rôl Arweinydd a rolau eraill ar y Pwyllgor Gwaith

2.7.9.2 Os caiff dau Gynghorydd neu ragor eu hethol i rannu'r swydd Arweinydd y Pwyllgor Gwaith (gweler paragraff 2.7.3.4 uchod) neu eu penodi i rannu swydd ar y Pwyllgor Gwaith (gweler paragraffau 2.7.4.3 a 2.7.5.2 uchod), gellir cynyddu nifer aelodau'r Pwyllgor Gwaith i—
(a)11 neu 12, os caiff o leiaf ddau aelod eu hethol neu eu penodi i rannu swydd; eu
(b) 13, os caiff o leiaf dri aelod eu hethol n eu penodi i rannu swydd.

2.7.9.3 Bydd gan unigolion sy'n rhannu rôl ar y Pwyllgor Gwaith un bleidlais rhyngddynt mewn perthynas ag unrhyw fater y mae ganddynt hawl i bleidleisio arno fel aelodau o'r Pwyllgor Gwaith. Dyrennir y bleidlais i'r trefniant rhannu swydd ac nid i unigolyn, felly bydd rhaid i'r aelodau Pwyllgor Gwaith sy'n rhannu swydd gynnal trafodaethau priodol ymlaen llaw, yn amodol ar baragraff 2.7.9.7 isod.

2.7.9.4 Os bydd dau aelod neu ragor sy'n rhannu rôl ar y Pwyllgor Gwaith yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith, yn rhinwedd eu rôl fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith, dylid cofnodi bod pob un yn bresennol yn y cyfarfod a chaniateir i bob aelod siarad yn ystod y cyfarfod. Fodd bynnag os oes pleidlais mewn perthynas â mater Pwyllgor Gwaith, yna bydd rhaid iddynt benderfynu ymlaen llaw pwy fydd yn pleidleisio a hysbysu Cadeirydd y cyfarfod.

2.7.9.5 Os bydd aelod sy'n rhannu rôl ar y Pwyllgor Gwaith yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith, yn rhinwedd ei rôl fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith, a bod pleidlais mewn perthynas ag unrhyw fater Pwyllgor Gwaith, yna rhaid i'r aelod Pwyllgor Gwaith sydd yn bresennol fwrw'r bleidlais yn unol â'r trafodaethau paratoadol a gynhaliwyd ymlaen llaw gyda'r aelod(au) sy'n rhannu'r swydd honno gyda hwy.

2.7.9.6 Os nad ydi'r unigolion sy'n rhannu'r swydd yn gallu dod i gytundeb, ni fydd y bleidlais yn cyfrif.

2.7.9.7 Os oes gan aelod Pwyllgor Gwaith sy'n rhannu rôl ar y Pwyllgor Gwaith ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas â mater, yna dylai'r aelod sydd heb unrhyw wrthdaro fwrw'r bleidlais heb drafod y mater ymlaen llaw gyda'r aelod Pwyllgor Gwaith sy'n rhannu'r swydd.

2.7.9.8 Bydd unrhyw drefniadau rhannu swydd yn cael eu gwneud yn unol â'r darpariaethau yn y Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn Rhan 6 o'r Cyfansoddiad.

4.4 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith

4.4.1 Sut Mae'r Pwyllgor Gwaith yn Gweithredu?

4.4.1.1 Pwy all wneud penderfyniadau gweithredol?

Gall yr Arweinydd wneud darpariaethau i'r swyddogaethau gweithredol gael eu hymarfer gan:

4.4.1.1.1 Y Pwyllgor Gwaith yn gyffredinol;

4.4.1.1.2 Bwyllgor o'r Pwyllgor Gwaith ;

4.4.1.1.3 Aelod Unigol o'r Pwyllgor Gwaith;

4.4.1.1.4 Swyddog;

4.4.1.1.5 Pwyllgor Ardal;

4.4.1.1.6 Trefniadau ar y Cyd; neu

4.4.1.1.7 Awdurdod Lleol arall.

4.4.1.2 Yr Arweinydd yn Dirprwyo

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor, bydd yr Arweinydd yn cyflwyno cofnod ysgrifenedig i'r Cyngor o ddirprwyaethau a wnaeth i'w cynnwys yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn. Bydd y ddogfen a gyflwynir gan yr Arweinydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am swyddogaethau gweithredol yng nghyswllt y flwyddyn sy'n dod :-

4.4.1.2.1 enwau, cyfeiriadau ac wardiau'r bobl a benodwyd i'r Pwyllgor Gwaith gan yr Arweinydd;

4.4.1.2.2 graddau unrhyw awdurdod a ddirprwywyd i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn unigol, gan gynnwys manylion ynglŷn â chyfyngu ar eu hawdurdod;

4.4.1.2.3 cylch gorchwyl a chyfansoddiad pa Bwyllgorau bynnag o'r Pwyllgor Gwaith y mae'r Arweinydd yn eu penodi, ac enwau Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith y mae'n eu penodi iddynt;

4.4.1.2.4 natur a maint unrhyw ddirprwyo ar swyddogaethau gweithredol i Bwyllgorau Ardal, i unrhyw Awdurdod arall neu i unrhyw Gytundebau ar y Cyd ac enwau'r Aelodau hynny o'r Pwyllgor Gwaith a benodwyd i unrhyw Bwyllgor ar y Cyd am y flwyddyn i ddod; a

4.4.1.2.5 natur a maint unrhyw ddirprwyo ar swyddogaethau gweithredol i Swyddogion, gyda manylion am unrhyw gyfyngu ar y dirprwyo hwnnw, a theitl y Swyddog y dirprwyir iddo.

4.4.1.3 Is-ddirprwyo swyddogaethau gweithredol

4.4.1.3.1 Pan fo'r Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor o'r Pwyllgor Gwaith neu Aelod unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am swyddogaeth weithredol, yna gallant ddirprwyo ymhellach i Bwyllgor Ardal, i Drefniadau ar y Cyd neu i Swyddog.

4.4.1.3.2 Onid yw'r Cyngor yn dweud yn wahanol, os ydyw'r Arweinydd yn dirprwyo swyddogaethau i'r Pwyllgor Gwaith, yna gall y Pwyllgor Gwaith ddirprwyo ymhellach i Bwyllgor o'r Pwyllgor Gwaith neu i Swyddog.

4.4.1.3.3 Onid yw'r Arweinydd yn dweud yn wahanol, gall Pwyllgor o'r Pwyllgor Gwaith y dirprwyodd yr Arweinydd swyddogaethau iddo ddirprwyo ymhellach i Swyddog.

4.4.1.3.4 Hyd yn oed pan fo swyddogaethau gweithredol wedi eu dirprwyo nid yw hynny'n rhwystro'r person neu'r corff a ddirprwyodd y swyddogaethau rhag cyflawni'r swyddogaethau a ddirprwywyd.

4.4.1.3.5 Rhaid cyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr ac i'r unigolyn, y corff neu'r Pwyllgor perthnasol am unrhyw is-ddirprwyo neu newidiadau i unrhyw is-ddirprwyo o'r fath. Yn y rhybudd rhaid nodi manylion yr is-ddirprwyo neu'r newidiadau i'r is-ddirprwyo. Bydd y Prif Weithredwr yn cadw cofnod o fanylion unrhyw is-ddirprwyo neu newidiadau i is-ddirprwyo.

4.4.1.4 Cynllun dirprwyo a swyddogaethau gweithredol y Cyngor

4.4.1.4.1 Yn amodol ar 4.4.1.4.2 isod bydd raid i gynllun dirprwyo'r Cyngor gael ei fabwysiadu gan y Cyngor a dim ond y Cyngor all ei ddiwygio. Bydd yn cynnwys y manylion sy'n angenrheidiol yn Erthygl 2.7 ac a gyflwynwyd yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

4.4.1.4.2 Gall yr Arweinydd ddiwygio'r cynllun dirprwyo i swyddogaethau gweithredol unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. I wneud hynny, rhaid i'r Arweinydd roi rhybudd ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr ac i'r person, corff neu Bwyllgor dan sylw. Rhaid i'r rhybudd gyflwyno maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a ph'run a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth oddi ar unrhyw berson, corff, Pwyllgor neu'r Pwyllgor Gwaith yn gyffredinol. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i Gyfarfod Arferol nesaf y Cyngor yn nodi'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd.

4.4.1.4.3 Pan fo'r Arweinydd yn penderfynu tynnu dirprwyon oddi ar Bwyllgor, cymerir bod rhybudd wedi ei roi i'r Pwyllgor hwnnw pan fydd y rhybudd wedi ei roi i'w Gadeirydd.

4.4.1.5 Buddiannau'n gwrthdaro

4.4.1.5.1 Pan fo gan yr Arweinydd fuddiannau'n gwrthdaro dylid ymdrin â hynny yn unol â'r Côd Ymddygiad i Aelodau'r Cyngor yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

4.4.1.5.2 Os oes gan bob Aelod o'r Pwyllgor Gwaith fuddiannau'n gwrthdaro dylid ymdrin â hynny yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor i Aelodau yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

4.4.1.5.3 Os yw ymarfer swyddogaeth weithredol wedi ei ddirprwyo i Bwyllgor o'r Pwyllgor Gwaith, i Aelod unigol neu i Swyddog, a phe bai buddiannau'n gwrthdaro, yna bydd y swyddogaeth yn cael ei hymarfer yn y lle cyntaf gan y person neu'r corff a wnaeth y dirprwyo ac fel arall yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor i Aelodau yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

4.4.1.6 Cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith – pryd a ble?

Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod o leiaf 12 o weithiau y flwyddyn ar adegau y cytuna'r Arweinydd arnynt. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod ym mhrif swyddfeydd y Cyngor neu leoliad arall y cytuna'r Arweinydd arno.

4.4.1.7 Cyfarfodydd cyhoeddus neu breifat o'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Hawl i Wybodaeth yn Rhan 4.2 y Cyfansoddiad yn cyflwyno'r gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin â chyfarfodydd cyhoeddus a phreifat.

4.4.1.8 Cworwm

4.4.1.8.1.Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith, neu Bwyllgor ohono, fydd chwarter cyfanswm nifer Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (gan gynnwys yr Arweinydd), neu 3 gan gynnwys yr Arweinydd, pa un bynnag yw'r mwyaf.

4.4.1.8.2 Pan fo rolau Pwyllgor Gwaith yn ddarostyngedig i drefniadau rhannu swydd, bydd yr aelodau sy'n rhan o'r trefniant rhannu swydd yn cyfrif fel un person (yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a phan fyddant yn mynychu cyfarfodydd yn rhinwedd eu rôl fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith) at ddibenion cyfrifo a oes cworwm yn y cyfarfod.

4.4.1.9 Sut y bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau?

4.4.1.9.1 Gwneir penderfyniadau gweithredol a gafodd eu dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith yn gyffredinol mewn cyfarfod a elwir yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Hawl i Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

4.4.1.9.2 Pan fo penderfyniadau gweithredol yn cael eu dirprwyo i Bwyllgor o'r Pwyllgor Gwaith, bydd y rheolau sy'n berthnasol i benderfyniadau gweithredol a wna'r pwyllgor yr un fath â'r rhai hynny sy'n berthnasol i'r penderfyniadau a wna'r Pwyllgor Gwaith yn gyffredinol.

4.4.1.9.3 Pan fo rolau ar y Pwyllgor Gwaith yn ddarostyngedig i drefniadau rhannu swydd, bydd gan yr aelodau sy'n rhan o'r trefniant rhannu swydd un bleidlais rhyngddynt (yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a phan fyddant yn mynychu cyfarfodydd yn rhinwedd eu rôl fel Aelod o'r Pwyllgor Gwaith).

4.4.2 Sut y Cynhelir Cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith?

4.4.2.1 Pwy sy'n llywyddu?

Os ~~yw'~~oes~~r~~ Arweinydd yn bresennol, bydd yr Arweinydd yn~~n~~ llywyddu. Os nad oes Arweinydd yn bresennol, ~~Yn ei absenoldeb, bydd y~~ bydd Dirprwy Arweinydd yn llywyddu. Os nad oes Arweinydd neu Ddirprwy Arweinydd yn bresennol ~~ydyw'r ddau'n absennol~~, yna bydd person a benodir gan y rheini sy'n bresennol yn llywyddu.

4.4.2.2 Pwy all fod yn bresennol?

Cyflwynir y manylion hyn yn y Rheolau Gweithdrefn Hawl i Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

4.4.2.3 Pa fusnes?

Ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith cyflawnir y busnes canlynol:

4.4.2.3.1 ystyried cofnodion y cyfarfod diwethaf;

4.4.2.3.2 datganiadau o ddiddordeb, os oes rhai;

4.4.2.3.3 materion a drosglwyddwyd i'r Pwyllgor Gwaith (naill ai gan Bwyllgor Sgriwtini neu gan y Cyngor) i'w hailystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn unol â'r darpariaethau yn Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini neu Reolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn;

4.4.2.3.4 ystyried adroddiadau'r Pwyllgorau Sgriwtini; a

4.4.2.3.5 materion brys y mae'r Prif Weithredwr neu Swyddog arall a benoda i weithredu ar ei ran yn eu hardystio.

4.4.2.4 Ymgynghori

Rhaid i'r holl adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith oddi wrth unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Gwaith neu Swyddog ynghylch cynigion yn ymwneud â'r gyllideb a'r fframwaith polisi, gynnwys manylion am natur a maint yr ymgynghori gyda chydranddeiliaid a Phwyllgorau Sgriwtini perthnasol, a chanlyniad yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd adroddiadau ar faterion eraill yn nodi manylion a chanlyniad yr ymgynghori fel y bo'n briodol. Bydd lefel yr ymgynghori sy'n angenrheidiol yn briodol i natur y mater dan sylw.

4.4.2.5 Pwy all roi eitemau ar agenda'r Pwyllgor Gwaith?

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu ar atodlen cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith. Gall roi unrhyw fater y mae'n ei ddymuno ar agenda unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith, p'run a ddirprwywyd awdurdod i'r Pwyllgor Gwaith, i un o'i Bwyllgorau, neu unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas â'r mater hwnnw ai peidio. Bydd y Prif Weithredwr yn cydymffurfio â cheisiadau'r arweinydd yn hyn o beth.

Trosglwyddo i'r Pwyllgor Gwaith:

4.4.2.5.1 Gall unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weithredwr sicrhau bod eitem yn cael ei rhoi ar agenda'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Pwyllgor Gwaith i'w hystyried. Os bydd yn derbyn cais o'r fath bydd y Prif Weithredwr yn cydymffurfio.

4.4.2.5.2 Bydd eitem sefydlog ar agenda pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ar gyfer materion a drosglwyddwyd o Bwyllgorau Sgriwtini. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd dim ond 5 o eitemau o'r fath ar gyfer pob cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith.

4.4.2.5.3 Gall unrhyw aelod o'r Cyngor roi eitem ar agenda cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith i'w hystyried. Cyfyngir nifer y cyfryw eitemau i ddim mwy na 5 ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor

Gwaith a byddant yn cael eu rhoi ar yr Agenda yn y drefn y derbyniodd y Prif Weithredwr hwy. Lle bynnag y mae hynny'n bosib, bydd yr eitemau yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwaith. Bydd y rhybudd ynghylch y cyfarfod yn rhoi enw'r Cynghorydd a ofynnodd am i'r eitem gael ei hystyried. Gwahoddir y Cynghorydd hwnnw i fynychu'r cyfarfod, p'run a yw hwnnw'n gyfarfod cyhoeddus ai peidio a bydd â'r hawl i siarad ond ni chaiff bleidleisio.

4.4.2.5.4 Gall y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a/neu'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 gynnwys eitem i'w hystyried ar agenda cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gall ofyn i'r swyddog priodol alw cyfarfod o'r fath i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Dan amgylchiadau eraill, os ydyw unrhyw ddau o blith y Prif Weithredwr, y Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro o'r farn fod angen galw cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith i ystyried mater sydd angen penderfyniad, gallant gynnwys eitem ar y cyd ar agenda cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith. Os nad oes cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith yn ddigon buan i ymdrin â'r mater dan sylw, yna gall yr unigol(-yn/-ion) sydd â hawl i gynnwys eitem ar yr agenda yn mynnu bod cyfarfod yn cael ei alw lle bydd y mater yn cael ei ystyried.